Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Healthcare Inspectorate Wales

# Adroddiad Cryno ar yr Arolygiad

## Adroddiad Arolygu Anabledd Dysgu (Dirybudd)
## Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe
## Lleoliad yn Ysbyty'r GIG
## Dyddiad yr arolygiad: 24 a 25 Ionawr 2023
## Dyddiad cyhoeddi: 27 Ebrill 2023



Mae'r ddogfen gryno hon yn rhoi trosolwg o ganlyniad yr arolygiad

ISBN Digidol 978-1-80535-854-1
© Hawlfraint y Goron 2023

Ar y cyfan, gwelsom dystiolaeth fod y gwasanaeth yn darparu gofal diogel ac effeithiol mewn amgylchedd dymunol a glân. Dangosodd y gwasanaeth fod pwyslais ar ofal sy'n canolbwyntio ar y cleifion.

Gwelsom dîm o staff ymroddedig a oedd yn ymrwymedig i ddarparu gofal o safon uchel i'r cleifion. Gwelsom y staff yn dangos parch wrth ryngweithio â'r cleifion drwy gydol yr arolygiad.

Fodd bynnag, mae angen gwneud rhai gwelliannau mewn perthynas â gwybodaeth i gleifion a rotas staffio.

Nodwch fod canfyddiadau'r arolygiad yn ymwneud â'r adeg y cynhaliwyd yr arolygiad.



# Yr hyn a wnaethom

Ceir manylion llawn am y ffordd rydym yn arolygu'r GIG ac yn rheoleiddio darparwyr gofal iechyd annibynnol yng Nghymru ar ein gwefan.

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad anabledd dysgu dirybudd mewn lleoliad ysbyty ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe ar 24 a 25 Ionawr 2023.

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys un Arolygydd Gofal Iechyd AGIC ac un adolygydd cymheiriaid clinigol. Arweiniwyd yr arolygiad gan un o Uwch-arolygwyr Gofal Iechyd AGIC.

Mae'r ysbyty yn ysbyty preswyl bach sy'n darparu gofal ar gyfer hyd at bum claf ag anableddau dysgu.

Mae'r fersiwn gryno hon o'r adroddiad wedi'i chynllunio ar gyfer aelodau'r cyhoedd.

Mae adroddiad llawn, sydd wedi'i gynllunio ar gyfer y lleoliad, ac sy'n disgrifio'r holl ganfyddiadau sy'n ymwneud â darparu gofal diogel a dibynadwy o ansawdd uchel sy'n canolbwyntio ar gleifion unigol ar gael ar ein gwefan.

# Ansawdd Profiad y Claf

## Crynodeb Cyffredinol

Roedd yr amgylchedd wedi gwella'n sylweddol ers yr arolygiad diwethaf ac roedd yn diwallu holl anghenion y cleifion. Gwnaethom arsylwi bod y staff yn rhyngweithio ac yn ymgysylltu â'r cleifion mewn modd priodol, ac yn eu trin ag urddas a pharch.

Roedd amrywiaeth o weithgareddau addas ar gael yn yr ysbyty ac yn y gymuned i'r cleifion fynd atynt.

Gallai amrywiaeth y wybodaeth yn yr ysbyty gael ei wella i'r cleifion a'r teuluoedd.

## Lle gallai'r gwasanaeth wella

- Mae angen adolygu'r bwydlenni i gleifion a'u gwella er mwyn sicrhau bod dewisiadau'r fwydlen yn bodloni gofynion maethol y cleifion
- Mae angen gwirio tymereddau'r bwyd yn gyson a'u cofnodi.
- Dylai gwybodaeth iechyd gael ei darparu i'r cleifion ac i ymwelwyr.

## Nodwyd gennym fod y gwasanaeth hwn yn gwneud y canlynol yn dda

- Roedd y staff yn rhyngweithio ac yn ymgysylltu â'r cleifion mewn ffordd barchus
- Gwaith tîm da a staff sy'n llawn cymhelliant.

**Dywedodd y cleifion wrthym:**

Gwnaeth y cleifion y sylwadau canlynol:

*"Mae'r staff yn ein trin yn dda" "mae gennym hawl i ddewis ein bwyd neu goginio ein bwyd ein hunain ac archebu bwyd tecawê".*

# Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

## Crynodeb Cyffredinol

Roedd yr ysbyty yn cynnwys dodrefn, gosodiadau a ffitiadau addas ar gyfer y cleifion.

Gwelsom fod y staff yn cwblhau'r prosesau a'r dogfennau clinigol fel sy'n ofynnol.

Roedd prosesau ac archwiliadau sefydledig ar waith i reoli risgiau, iechyd a diogelwch a rheoli heintiau. Roedd hyn yn galluogi'r staff i barhau i ddarparu gofal diogel a chlinigol effeithiol.

## Lle gallai'r gwasanaeth wella

- Storio'r cyfarpar COSHH yn gywir
- Diogelu cyfrinachedd y cleifion.

## Nodwyd gennym fod y gwasanaeth hwn yn gwneud y canlynol yn dda

- Roedd y cynlluniau gofal yn fanwl, wedi'u teilwra at yr unigolyn, ac yn hawdd eu llywio
- Rheoli meddyginiaeth yn ddiogel ac effeithiol.

**Dywedodd y cleifion wrthym:**

Gwnaeth y cleifion y sylwadau canlynol:

"Rwy'n hoffi'r bwyd yma ac yn cael dewis beth rydw i eisiau ei fwyta neu ei goginio a gallaf archebu bwyd tecawê."

Dywedodd y cleifion wrthym fod y staff yn gefnogol ac yn dangos parch.

# Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

## Crynodeb Cyffredinol

Roedd yna dîm sefydledig o staff gydag ethos gwaith tîm cryf. Roedd y tîm o staff yn deall anghenion y cleifion yn yr ysbyty yn dda.

## Lle gallai'r gwasanaeth wella

- Dylai cyfarfodydd staff rheolaidd gael eu cynnal a'u cofnodi.
- Adolygu rotas i sicrhau bod y staff yn cael digon o ddiwrnodau i orffwys rhwng shifftiau
- Adolygu a diweddaru polisïau
- Gwella ffigurau hyfforddiant trefniadau diogelu wrth amddifadu o ryddid.

- **Nodwyd gennym fod y gwasanaeth hwn yn gwneud y canlynol yn dda**
  Tîm o staff llawn cymhelliant, sy'n canolbwyntio ar y cleifion
- Roedd y tîm o staff yn gydlynol ac yn gadarnhaol am y cymorth a'r arweiniad a gawsant.

**Dywedodd y staff wrthym:**

Gwnaeth aelodau o'r staff y sylwadau canlynol:

Dywedodd y staff wrthym eu bod yn mwynhau gweithio yn y lleoliad a dywedodd yr holl staff eu bod yn cydweithio'n dda fel tîm.

# Y camau nesaf

Lle rydym wedi nodi gwelliannau a phryderon uniongyrchol yn ystod ein harolygiad y mae'n ofynnol i'r gwasanaeth gymryd camau yn eu cylch, cânt eu nodi yn atodiadau'r adroddiad arolygu llawn.

Pan fyddwn yn nodi pryderon sy'n peri risg uniongyrchol i ddiogelwch cleifion, gofynnwn i'r bwrdd iechyd gymryd camau brys. Caiff y pryderon hyn eu hamlinellu yn yr atodiadau ac maent yn amlinellu'r camau a gymerwyd gan y bwrdd iechyd i amddiffyn diogelwch cleifion ac sydd wedi'u cymeradwyo gennym ni. Rydym hefyd yn darparu tabl manwl o welliannau a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle byddwn yn gofyn i'r gwasanaeth ddweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i ymdrin â'r meysydd hyn ac i wella ansawdd a diogelwch gwasanaethau gofal iechyd. Yn ogystal, rydym yn amlinellu pryderon a godwyd ac yn cydnabod y rhai a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad.

Ar yr adeg briodol, bydd AGIC yn gofyn i'r bwrdd iechyd gadarnhau bod camau wedi'u cymryd yn unol ag ymatebion y rheolwyr a ddogfennwyd yn y cynllun gwella. Rydym hefyd yn gofyn i'r bwrdd iechyd ddarparu tystiolaeth ddogfennol o'r camau a gymerwyd a/neu'r cynnydd a wnaed.

